*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid o'r CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Llun, 29ain Ebrill, 2024 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Jones - Uned Busnes y Cyngor (Rhif ffôn. 07385401954)**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 4TH / ZOOM**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 25 Ebrill 2024. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 18)**

**3. CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad cyhoeddi Hysbysiad Statudol yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024.

**(Tudalennau 19 - 60)**

**4. PARTNERIAETH LLEOEDD BUSNES YN Y GYMUNED (BITC) A RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn sefydlu Partneriaeth Lleoedd Busnes yn y Gymuned (BITC) a Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 61 - 74)**

**5. CYDWEITHFA YMCHWIL AR FATERION IECHYD RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â chyllid i sefydlu Cydweithfa Ymchwil ar Faterion Iechyd Rhondda Cynon Taf a gofyn am gymeradwyaeth o ran nodau ac amcanion y gydweithfa ar gyfer 2024-2028.

**(Tudalennau 75 - 88)**

**6. STRATEGAETH DDRAFFT – GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n rhoi i'r Cabinet Strategaeth ddrafft – Gofal Cymdeithasol i Oedolion chwe blynedd newydd (2024/30) sy'n nodi'n gweledigaeth a blaenoriaethau hyd at 2030 ac yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu.

**(Tudalennau 89 - 112)**

**7. ADDEWID RHIANTA CORFFORAETHOL DRAFFT AR GYFER RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am ddatblygu Addewid Rhianta Corfforaethol drafft ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n cefnogi gwaith gweithredu Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru – “Addewid Cymru.”

**(Tudalennau 113 - 204)**

8. **ADOLYGIAD Y GWASANAETHAU I BLANT O'R GWASANAETH GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r gwaith trawsnewid sydd wedi'i gynllunio mewn perthynas â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gofyn am gytundeb i gymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Adolygu arfaethedig y cyfeirir ati isod, sef Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir.

**(Tudalennau 205 - 218)**

9. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Stephen Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu